

Rhestr wirio wrth chwilio am eiddo



Ewch â'r dudalen hon gyda chi pan fyddwch yn mynd i weld tai!

Byddwch yn feirniadol wrth ymweld ag eiddo:

Lleoliad a Theithio

- Ydy'r brifysgol/siopau/trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfleus i'r eiddo?
- Oes lle i gadw beiciau'n ddiogel?

Diogelwch

- Ydy'r tŷ a'r gymdogaeth yn edrych mewn cyflwr da?
- Ydy'r ffenestri a'r drysau'n ddiogel?
- Oes synwryddion mwg a charbon monocsid ymhob rhan o'r tŷ?
- Oes llwybr dianc diogel at y prif ddrws petai tân (o bob ystafell)?
- Oes gan soffas/cadeiriau esmwyth labeli diogelwch tân?

Ystafelloedd gwely

- Oes lle i astudio ac i ymlacio?
- Oes digon o le storio?
- Ydy'r ystafell wedi ei gwresogi a'i hawyru?
- Oes gwydr dwbl yn y ffenestri?
- Ydy hi'n cael ei chynnig gyda dodrefn neu heb?
- Oes unrhyw arwyddion o leithder/llwydni?

Ardaloedd Cyffredin

- Ydy pob ystafell sy'n cael ei rhannu wedi ei gwresogi/awyru? Ac oes gwydr dwbl?
- Oes digon o ystafelloedd ymolchi/toiledau ar gyfer eich grŵp?
- Ydy'r gegin yn ddigon mawr?
- Oes digon o le storio yn y gegin? (oergelloedd, cypyrddau a chownteri)
- Ydy'r ystafelloedd cymunedol yn cael eu cynnig gyda dodrefn neu heb?
- Oes unrhyw arwyddion o leithder/llwydni?
- Ydy'r ardd yn rhydd rhag wastraff?

Gofynnwch i'r Landlord/Asiant

- A ydyn nhw wedi eu cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru?
- Oes gan yr eiddo drwydded, os oes ei hangen?
- Ydyn nhw wedi darparu'r Dystysgrif Diogelwch Nwy?
- Ydyn nhw wedi darparu'r Dystysgrif Perfformiad Ynni?
- Pa gynllun diogelu blaendaliadau maen nhw'n ei ddefnyddio?
- Faint fydd angen i chi ei dalu nawr? *(Ni chaniateir ffioedd gweinyddu)*

Treuliwch amser yn dod o hyd i gartref y byddwch yn ei garu. Dylai'ch landlord roi 24 awr i chi i fynd â'r contract gyda chi er mwyn i arbenigwr wirio am delerau annheg. Os ydych yn amheus o rywbeth, neu os hoffech ail farn, mae cyngor ar gael am ddim gan Swyddfa Llety eich Prifysgol neu Undeb y Myfyrwr.